

Cyngor Adnewyddu'r Economi

Adolygiad o'r Broses Asesu a'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Cyflwyniad

1. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau system addysg sy'n gwella safonau llythrennedd a rhifedd, sy'n lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgu, ac sy'n cynnig cwricwlwm sy'n rhoi'r sgiliau a'r agweddau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt i blant a phobl ifanc.
2. Ym mis Hydref 2012, sefydlwyd yr Adolygiad o'r Broses Asesu a'r Cwricwlwm Cenedlaethol i ystyried y trefniadau sy'n bodoli yng Nghymru. Mae'n bwysig bod cynnwys y cwricwlwm a'r broses asesu yn canolbwyntio cymaint â phosibl ar ein hamcanion allweddol. Felly, gofynnwyd i'r adolygiad ystyried y trefniadau asesu ehangach sy'n bodoli mewn ysgolion a gwneud argymhellion ar unrhyw newidiadau sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r profion Darllen a Rhifedd yn rhan o ddull ystyrlon. Gofynnwyd iddo hefyd p'un a yw'r disgwyliadau o'r hyn y dylai plant ei wybod ar hyn y dylent fod yn gallu ei wneud, fel y nodir yng ngorchmynion pwnc y cwricwlwm cenedlaethol presennol, yn ddigon heriol ac yn cyd-fynd â disgwyliadau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Cam 1 yr Adolygiad - llythrennedd, rhifedd a sgiliau ehangach

3. Hyd yma, mae'r adolygiad wedi cydweithio'n agos â rhanddeiliaid ac wedi cynnal trafodaethau ag arbenigwyr ym maes addysg, yn ogystal â chomisiynu ymchwil annibynnol, er mwyn llywio nifer o gynigion ar gyfer newid a gynlluniwyd i gynorthwyo a gwella'r broses o addysgu llythrennedd a rhifedd.
4. Ar yr un pryd, ac er mwyn sicrhau aliniad â chymwysterau sgiliau o fewn dull diwygiedig o gyflwyno Bagloriaeth Cymru, mae'r ymgynghoriad yn cynnwys cynnig y dylai sgiliau ehangach - y canfyddir eu bod yn hanfodol ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith - fod yn elfennau statudol o'r Cwricwlwm Cenedlaethol o ddechrau'r ysgol gynradd ymlaen. Maent yn cynnwys:
 - meddwl yn feirniadol a datrys problemau
 - cynllunio a threfnu
 - creadigrwydd ac arloesedd
 - effeithiolrwydd personol
 - llythrennedd digidol.

Ar hyn o bryd, mae rhanddeiliaid yn cael cyfle i roi adborth ar y cynigion hyn fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus sy'n cau ar 17 Ionawr 2014. Ceir manylion pellach drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

<http://wales.gov.uk/consultations/education/curriculum-for-wales/?skip=1&lang=cy>

Cam 2 yr Adolygiad

5. Yn ystod yr adolygiad o dystiolaeth rhanddeiliaid, cododd nifer o faterion sydd y tu allan i gwmpas yr adolygiad cychwynnol. Ymdrinnir â'r materion hyn yn ystod cam 2 yr adolygiad. Mae'n bwysig nodi, wrth ystyried y materion hyn, eu bod i gyd yn rhyngddibynnol yn y broses o gyflawni canlyniad terfynol i'r adolygiad. Hefyd, rhaid iddynt gael eu cydbwysu yn erbyn blaenoriaethau cyffredinol sef llythrennedd, rhifedd a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

MATERION ALLWEDDOL

Grwpiau Gorchwyl a Gorffen

6. Ar ddechrau'r adolygiad, sefydlwyd pum grŵp Gorchwyl a Gorffen annibynnol i ystyried elfennau penodol o'r cwricwlwm ac mae'r rhain wedi cyflwyno eu hadroddiadau bellach. Mae'r grwpiau hyn wedi rhoi argymhellion yn y meysydd canlynol:
 - **Ysgolion a Gweithgarwch Corfforol**, yn cynnwys argymhelliad y dylai Addysg gorfforol fod yn bwnc craidd;
 - **Y Celfyddydau mewn Addysg**, yn cynnwys argymhelliad y dylai addysg gyfoethog yn y celfyddydau fod yn greiddiol i'r profiad ysgol a chynnwys creadigrwydd ochr yn ochr â llythrennedd a rhifedd fel sgil trawsbynciol;
 - **Y Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru**, yn cynnwys yr argymhelliad bod rhaid i ni ddatblygu cwricwlwm ar gyfer Cymru a chymwysterau gyda safbwynt Cymreig;
 - **Cyfrifiadureg a TGCh**, yn cynnwys argymhelliad y dylai pwnc newydd o'r enw Cyfrifiadura ddisodli TGCh ac y dylid datblygu Fframwaith Llythrennedd Digidol;
 - **Cymraeg Ail Iaith**, yn cynnwys yr argymhelliad y dylid rhoi'r un statws â phynciau craidd eraill i Gymraeg Ail Iaith.
7. Caiff yr argymhellion hyn eu hystyried yng nghyd-destun y cwricwlwm cyfan yn ystod cam 2 yr adolygiad.

Gwyddoniaeth ac Ieithoedd

8. Rhaid i'r cwricwlwm adlewyrchu anghenion busnes a'r economi ac mae hyn yn cynnwys rôl hanfodol gwyddoniaeth a thechnoleg. Fel hyn, gallwn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i lwyddo mewn pynciau STEM, ac yn ddiweddarach mewn gyrfaoedd sy'n gysylltiedig â STEM. Mae gwyddoniaeth yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ond mae'r adolygiad cychwynnol o dystiolaeth gan randdeiliaid wedi nodi nifer o feysydd lle y gellid gwella arfer yn y maes hwn. Roedd rhai ymarferwyr o'r farn nad yw gwyddoniaeth yn cael digon o le mewn addysg gynradd ac nad yw cynnwys rhaglenni astudio gwyddoniaeth yn briodol i oedran y disgyblion bob amser. Mae gwyddoniaeth hefyd wedi bod yn destun argymhellion gan Estyn a amlygodd nad yw'r disgwyliadau presennol yn ddigon ymestynnol i ddisgyblion, nad ydynt yn rhoi digon o hyblygrwydd i ddysgwyr ddilyn eu diddordebau, ac y dylai Llywodraeth Cymru adolygu gorchmynion pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod cynnwys hanfodol yn rhan o wyddoniaeth. Felly, mae'n

amlwg bod angen ailedrych ar wyddoniaeth a bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar hyn yn y dyfodol.

9. Yn ogystal, bydd yr adolygiad yn edrych yn ofalus ar le leithoedd Tramor Modern yng Nghyfnod Allweddol 3.

Sgiliau Ehangach

10. Mae ein trafodaethau gyda rhanddeiliaid wedi amlygu pwysigrwydd sicrhau bod dysgwyr yn datblygu sgiliau a fydd o fudd i'w cyfleoedd mewn bywyd, eu dysgu, eu cymwysterau a'u cyfleoedd i gael gwaith. Felly, mae angen cytuno ar ddogfen ymgynghori cam 1, mewn egwyddor, er mwyn sicrhau bod sail statudol i'r sgiliau hyn yn y cwricwlwm.
11. Os bydd ymateb yr ymgynghoriad i'r cynnig hwn yn ffafriol, bydd llawer o waith ar droed i nodi disgwyliadau o flwyddyn i flwyddyn o ran datblygu sgiliau i ddysgwyr. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt i sicrhau aliniad o'r Cyfnod Sylfaen i Fagloriaeth Cymru a Chyfnod Allweddol 4, lle y cymerir camau i ymateb i'r Adolygiad o Gymwysterau hefyd. Nod datblygu fframwaith sgiliau ehangach statudol yw creu cyfleuster a fydd yn cynorthwyo'r broses o addysgu'r sgiliau hanfodol hynny i ddysgwyr. Byddai hefyd yn cyfrannu ymhellach at barhad ar hyd y daith dysgu drwy nodi llwybrau datblygu clir.

Ysgol Gynradd

12. Bydd Cam 2 yr adolygiad yn ystyried sut rydym yn rhesymoli'r gofyniad i docio cwricwlwm ysgol gynradd y canfyddir ei fod yn rhy llawn yn erbyn, er enghraifft, argymhellion y dylem fod yn cynnwys pynciau ychwanegol neu roi mwy o amser i bynciau sy'n bodoli eisoes. Mae'n hanfodol ein bod yn cael hyn yn iawn er mwyn parhau i fod yn glir mai llythrennedd a rhifedd yw ein blaenoriaethau, yn enwedig ar gyfer y plant hynny y mae safon iaith wael yn golygu eu bod dan anfantais.

Ysgol Uwchradd - Cyfnod Allweddol 3

13. Mae rhanddeiliaid o'r farn y dylai CA3 (tair blynedd gyntaf ysgol uwchradd) fod yn gyfle i athrawon gefnogi dysgwyr i feithrin ac atgyfnerthu eu sgiliau a'u gwybodaeth, er mwyn cyfleu syniadau a safbwyntiau ynghylch amrywiaeth eang o bynciau wrth baratoi ar gyfer CA4 a thu hwnt i hynny. Fodd bynnag, roedd yn glir o'n trafodaethau â rhanddeiliaid bod llawer ohonynt yn ystyried bod CA3 wedi 'colli ei ffordd' oherwydd diffyg diben clir - sy'n cyfrannu efallai at y dirywiad mewn perfformiad wrth bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.
14. Mewn ymateb i bryderon am y Cyfnod Allweddol addysgol hwn, mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi cyhoeddi ei fwriad i adfer diben i Gyfnod Allweddol 3. Er mwyn gwneud hyn, mae'n hanfodol y caiff diddordeb dysgwyr ei ennyn yn ystod y cyfnod addysgol hwn. Mae hefyd yn bwysig rhoi cyfleoedd tebyg i bob dysgwr ar gyfer dysgu arbrol, ni waeth beth fo'i gefndir economaidd-gymdeithasol na pha ysgol y mae'n mynd iddi. Bydd yr adolygiad yn edrych ar sut y gallwn roi'r cyfle i ddysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 3 'gamu y tu allan' i'r cwricwlwm a dilyn eu diddordebau penodol eu hunain yn fanylach. Gallai hyn olygu bod angen i

ddysgwyr dreulio llawer o amser yn astudio'n fanwl gan ganolbwyntio ar bwnc neu thema benodol.

15. Wrth ddatblygu'r cynigion hyn mae nifer o gyfleoedd i weithio gyda sefydliadau y tu allan i'r ysgol. Byddai hyn yn galluogi cyrff eraill i chwarae rhan fwy amlwg yn y cam addysgol hwn; er mwyn datblygu diddordebau pobl ifanc a meithrin eu brwdfrydedd ar gyfer dysgu. Er enghraifft: gallai sefydliadau celf, yn cynnwys orielau, ddefnyddio'r cyfle hwn i gynnig cyfleoedd dysgu trylwyr; gallai sefydliadau chwaraeon agor eu drysau i ddysgwyr sydd am ddatblygu eu diddordeb mewn chwaraeon y tu hwnt i gyfyngiadau campfa neu faes chwarae yr ysgol; gallai mentrau fel Technocamps a 'chlybiau codio' preswyl eraill gynnig y cyfle i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau mewn cyfrifiadureg gyda rhaglennwyr go iawn ac arbenigwyr yn y diwydiant; a gallai amgueddfeydd, sydd mewn sefyllfa unigryw i gynnig safbwynt Cymreig i ddysgu, gefnogi'r dysgwyr hynny sydd â diddordeb penodol mewn hanes.
16. Ymhellach, byddai diwydiant, a sefydliadau AU/AB, mewn sefyllfa dda i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau gwaith ysgogol ar gyfer prosiectau personol dysgwyr. Gellid defnyddio'r rhain i gefnogi datblygiad parhaus dysgwr sy'n gweithio y tu allan i gwricwlwm mwy traddodiadol, a chadw llygad ar yr un pryd ar gymwysterau a chyfleoedd gwaith yn y dyfodol.
17. Mae'r adolygiad hefyd yn ystyried p'un a ddylem ddatblygu'r cysyniad o 'raddio' ar ddiwedd y cam hwn.

Y Cwricwlwm Sylfaenol

18. Bydd Cam 2 yr adolygiad hefyd yn cynnwys adolygiad o'r cwricwlwm sylfaenol, sy'n cynnwys:
 - **Addysg grefyddol** - dylai'r ddarpariaeth fod yn seiliedig ar *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer addysg grefyddol i ddisgyblion 3 i 19 oed yng Nghymru*;
 - **Addysg bersonol a chymdeithasol** - dylai'r ddarpariaeth fod yn seiliedig ar *Fframaith addysg bersonol a chymdeithasol i ddisgyblion 7 i 19 oed yng Nghymru*;
 - **Addysg rhyw** - mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar *Addysg rhyw a chydberthnasau mewn ysgolion, Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 019/2010*;
 - **Addysg cysylltiedig â gwaith** - mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith ar gyfer disgyblion 11 i 19 oed yng Nghymru*
19. Mae'n bwysig y dylid edrych ar y maes hwn eto fel rhan o'r adolygiad presennol, er mwyn sicrhau ei fod yn gyson ag unrhyw drefniadau diwygiedig ar gyfer y cwricwlwm a phrosesau asesu ac yn addas at y diben ar gyfer Cymru yn yr 21^{ain} Ganrif.

Crynodeb

20. Mae'r Adolygiad o'r Broses Asesu a'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn cynnig cyfle i wneud rhywbeth unigryw yng Nghymru: datblygu cwricwlwm i Gymru sy'n rhoi gweledigaeth glir i ni ar gyfer addysg yr holl ffordd o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod

Allweddol 4 a'r gwaith rydym yn ei wneud yng nghyd-destun yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer disgyblion 14 i 19 oed yng Nghymru.

21. Bydd yr adolygiad yn gweithio gyda'n holl randdeiliaid a phartneriaid yn ei nod i ddatblygu a chyflwyno 'Cwricwlwm Cymru'; cwricwlwm a fydd yn rhoi'r cyfleoedd gorau posibl i'n plant, beth bynnag fo'u cefndir, fynd allan a llwyddo fel dinasyddion y byd.